



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cymrodoriaeth Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Wedi'i addasu o ganllaw AU Ymlaen



1.	CYFLWYNIAD	2
2.	FFRAMWAITH SAFONAU PROFFESIYNOL Y DEYRNAS UNEDIG 2011 (FFSP).....	3
2.1	ADDYSG UWCH A BOD YN GYMWYS AM GYMRODORIAETH.....	4
3.	CYMRODORIAETH A DISGRIFYDD 2	5
4.	ARWEINIAD SYDD AR GAEL I GEFNOGI EICH CAIS	6
5.	EICH CYFRIF O YMARFER PROFFESIYNOL	6
5.1	CYFRIF PERSONOL YW EICH CYFRIF O YMARFER PROFFESIYNOL.....	7
5.2	DATGANIAD CYD-DESTUN	8
5.3	STRWYTHURO EICH CYFRIF MYFYRIOL O YMARFER (CMY).....	10
5.4	TERFYN GEIRIAU CMY	10
5.5	MYFYRIO AR EICH YMARFER DRWY EICH CMY	11
5.6	CYFEIRIO AT Y SYLFAEN DYSTIOLAETH SY’N LLYWIO AC YN ATEGU EICH YMARFER (D2.V)	11
5.7	YMGYSYLLTU MEWN GWEITHGAREDD DATBLYGU PROFFESIYNOL O SAFBWYNT ADDYSGU, DYSGU A CHYFRIFOLDEBAU ASESU (D1.VI)... ..	12
6.	TYSTIOLAETH O DDIMENSIYNAU’R FFSP SY’N OFYNNOL AR GYFER DISGRIFYDD 2	14
7.	DANGOS TYSTIOLAETH O’R PUM MAES GWEITHGAREDD	16
7.1	DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 1: DYLUNIO A CHYNLLUNIO GWEITHGAREDDAU DYSGU A/NEU RAGLENNI ASTUDIO	16
7.2	DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 2: ADDYSGU A/NEU GYNORTHWYO DYSGU	18
7.3	DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 2: ASESU A RHOI ADBORTH I DDYSGWYR.....	20
7.4	DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU AMGYLCHEDDAU DYSGU EFFEITHIOL A DULLIAU O GYNORTHWYO AC ARWAIN MYFYRWYR	22
7.5	DANGOS TYSTIOLAETH O MAES GWEITHGAREDD 5: YMGYSYLLTIAD MEWN DATBLYGU PROFFESIYNOL PARHAUS MEWN PYNCAU / DISGYBLAETHAU A’U HADDYSGEG, GAN GYNNWYS YMCHWIL, YSGOLHEICTOD A GWERTHUSO YMARFERION PROFFESIYNOL.....	25
8.	DATGANIADAU CEFNOGI.....	27
8.1	CANLLAWIAU AR GYFER CANOLWYR.....	27
9.	CYFLWYNO EICH CAIS AM GYMRODORIAETH.....	28
9.1	PROSES CYFLWYNO CAIS:.....	28
10.	SUT GAIFF EICH CAIS EI ADOLYGU?	29
10.1	SUT MAE’R ASESWYR YN FFURFIO EU BARN?	29
10.2	CANLYNIADAU POSIBL YR ADOLYGIAD.....	29
10.3	FAINT FYDD Y BROSES ADOLYGU YN EI GYMRYD?	30
10.4	BETH OS OES GENNYF GWESTIYNAU ERAILL?.....	31

1. Cyflwyniad

Bwriedir y nodiadau canllaw hyn ar gyfer unigolion sy'n dymuno gwneud **cais drwy Gynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus Prifysgol y Drindod Dewi Sant am Gymrodoriaeth**.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r gofynion ar gyfer Cymrodoriaeth ac yn rhoi arweiniad i'ch helpu i lunio eich cais.

Drwy ymgeisio i fod yn Gymrawd cewch gyfle i:

- Gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eich ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu mewn addysg uwch sy'n cael ei chydabod fwyfwy gan sefydliadau rhyngwladol;
- Nodi a dathlu eich cryfderau a'ch cyflawniadau drwy fyfrio ar eich profiad;
- Meincodi eich ymarfer yn erbyn safonau proffesiynol a disgwyliadau'r sector;
- Dangos eich ymrwymiad i addysgu, dysgu, a phrofiad myfyrwyr, drwy ymgysylltu â phroses ymarferol sy'n annog ymchwil, myfyrdod a datblygiad proffesiynol.

Cyn dechrau eich cais, byddem yn argymhell eich bod yn defnyddio **Offeryn Categori Cymrodoriaeth (FCT) ar-lein** AU Ymlaen yn rhad ac am ddim. Fe ddylai ateb y cwestiynau ar-lein am eich gwaith ym myd addysgu a dysgu:

- eich helpu i gadarnhau mai Cymrodoriaeth sy'n cyfateb orau i'ch ymarfer presennol;
- gwneud ichi feddwl am wahanol agweddau ar eich ymarfer wrth ichi gynllunio eich cais.

2. Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig 2011 (FfSP)

Mae **Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (FfSP)** yn rhoi disgrifiad cyffredin o'r prif agweddau ar y rôl a gyflawna gweithwyr proffesiynol sy'n addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgu yn yr amgylchedd addysg uwch. Mae wedi'i ysgrifennu o safbwynt yr ymarferydd a gall unigolion a sefydliadau ei ddefnyddio i gydnabod a meincnodi rolau addysgu a chynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch.

Ceir dwy gydran i'r FfSP: **Dimensiynau** a **Disgrifyddion**.

Set o ddatganiadau sy'n amlinellu'r canlynol yw **Dimensiynau'r Fframwaith** (t3, FfSP):

- Y pum **Maes Gweithgaredd** a gyflawnwch wrth addysgu a/neu gynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch;
- Chwe agwedd ar **Wybodaeth Graidd** y mae arnoch eu hangen i gyflawni eich gweithgareddau dysgu ac addysgu ar y lefel addysg uwch briodol;
- Pedwar **Gwerth Proffesiynol** a ddylai lywio ac ategu eich ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu.

Mae **Disgrifyddion yr FfSP (FfSP, t4-7)** yn set o ddatganiadau (y cyfeirir atynt fel 'meini prawf' y Disgrifyddion) sy'n amlinellu nodweddion allweddol rhywun sy'n arddangos pedwar categori o rolau addysgu a chynorthwyo dysgu arferol ym maes addysg uwch.

AU Ymlaen sy'n gweithredu'r **Cynllun Cymrodoriaeth** ac mae'n cysoni ei gymrodoriaethau â Disgrifyddion y FfSP fel a ganlyn:

- Disgrifydd 1 (D1) sy'n gydnaws â Chymrawd Cysylltiedig
- **Disgrifydd 2 (D2) sy'n gydnaws â Chymrawd**
- Disgrifydd 3 (D3) sy'n gydnaws ag Uwch Gymrawd
- Disgrifydd 4 (D4) sy'n gydnaws â Phrif Gymrawd

Fe all unigolyn sy'n addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgu gael ei gydnabod gan AU Ymlaen yn ddibynnol ar eu profiad a'u hymarfer proffesiynol mewn un o bedwar categori o gymrodoriaethau. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn canolbwyntio ar **Gymrodoriaeth (Disgrifydd 2)**.

2.1 Addysg Uwch a bod yn gymwys am Gymrodoriaeth

Y FfSP sy'n datgan y safonau proffesiynol ar gyfer **addysg uwch**. Rhaid i'r holl brofiad a'r dystiolaeth a gynhwysir yn eich cais fod yn berthnasol i ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu sy'n ymwneud â darpariaeth addysg uwch megis:

- lefel 4 neu uwch o fewn y **Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)** yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu **gyfatebol**;
- lefel 7 neu uwch yn **Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF)** yn yr Alban ar y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg uwch (FQHEIS) neu **gyfatebol**;
- cylch cyntaf neu uwch o'r **Fframwaith Cymwysterau yn yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd** (QF-EHEA);
- lefel 5 neu uwch o **Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF)** neu **gyfatebol**;
- lefel 5 neu uwch o **Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd** neu **gyfatebol**;
- fframweithiau addysg uwch eraill cyfatebol;
- fe allai gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo myfyrwyr mewn cyd-destun Addysg Uwch, cyn belled â bo'r myfyriwr/wyr yn cofrestru ar Gymhwyster Addysg Uwch, hefyd gael ei ystyried fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch uchod;
- fe allai cyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus heb ei achredu ar gyfer staff cymorth dysgu ac academiaidd hefyd gael ei ystyried fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch.

Wrth ddiffinio'r hyn sy'n cyfrif fel dysgu ac addysgu AU mewn cyd-destunau rhyngwladol gwahanol, er mwyn pennu pwy sy'n gymwys am Gymrodoriaeth, mae AU Ymlaen yn defnyddio gwybodaeth gan **UK NARIC** (y Ganolfan Gwybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol) am fframweithiau a chymwysterau addysg rhyngwladol. Caiff rhaglenni eu diffinio fel rhai AU at ddibenion bod y staff sy'n addysgu ac yn cynorthwyo dysgu ar y rhaglen yn gymwys am Gymrodoriaeth os ydynt yn rhan annatod o raglen y'i diffinnir fel addysg uwch yng nghyd-destun y wlad astudio. Mae'r diffiniad o'r hyn sy'n cyfrif fel AU wedi'i ddiffinio ymhellach ar gyfer staff yn **y DU ac Awstraliasia**. Os ydych yn ansicr a yw'r esiamplau o ymarfer yn eich cais yn bodloni'r gofynion cymhwyso uchod, cysylltwch â'r Swyddfa Academiaidd ar HEApplications@uwtsd.ac.uk

3. Cymrodoriaeth a Disgrifydd 2

Fel yr eglurir uchod, caiff Cymrodoriaeth ei dyfarnu i weithwyr addysgu a dysgu addysg uwch (AU) proffesiynol sy'n gallu dangos eu bod yn bodloni gofynion Disgrifydd 2 (D2). Bydd angen ichi ddal i gyfeirio at yr FfSP (gweler Adran 2) wrth ichi fwrw ymlaen â'ch cais a gwneud cysylltiadau rhwng eich ymarfer, Disgrifydd 2 a Dimensiynau FfSP **penodol** (FfSP, t5).

I gael Cymrodoriaeth, rhaid ichi ddangos bod eich ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu yn dangos gofynion y chwe maen prawf yn **Nisgrifydd 2 (D2)**, sef:

D2.I	Ymgysylltiad llwyddiannus ar draws y pump Maes Gweithgaredd
D2.II	Gwybodaeth briodol a dealltwriaeth ar draws pob agwedd ar Wybodaeth Graidd
D2.III	Ymrwymiad i bob un o'r Gwerthoedd Proffesiynol
D2.IV	Ymgysylltiad llwyddiannus mewn arferion addysgu priodol sy'n perthyn i'r Meysydd Gweithgaredd
D2.V	Cynnwys ymchwil pwnc ac addysgegol a/neu ysgolheictod yn llwyddiannus o fewn y gweithgareddau uchod, fel rhan o ymagwedd integredig at ymarfer academaidd
D2.VI	Ymgysylltiad llwyddiannus mewn datblygiad proffesiynol parhaus parthed addysgu, dysgu, asesu a, lle bo'n briodol, ymarfer proffesiynol perthnasol:

Mae cymrodoriaeth fel arfer yn categori Cymrodoriaeth priodol ichi os gallwch ddangos effeithiolrwydd **eang** mewn **rôl(au) addysgu a chynorthwyo dysgu sylweddol**.

Mae Cymrodyr (D2) yn debygol o fod yn aelodau sefydledig o un neu ragor o dimau academaidd a/neu academaidd-gysylltiedig.

Dylai **Offer Categori Cymrodoriaeth** AU Ymlaen eich helpu i benderfynu pa Gymrodoriaeth yw'r categori Cymrodoriaeth mwyaf priodol i gyd-fynd â'ch rôl a'ch profiad hyd yma a diben y ddogfen ganllaw hon yn eich helpu i lunio cais.

[Cyn gwneud cais i'r Cynllun DPP am Gydabyddiaeth gan AU Ymlaen, rhaid ichi ddilyn rhaglen hyfforddiant y Brifysgol ar FfSP y DU, gan gynnwys gweithdy briffio gorfodol a chael mentor. Mae'r briff a'r mentor a neilltuir ar eich cyfer yno i'ch helpu gyda'ch cais. Bydd eich mentor eisoes yn dal statws cymrodoriaeth sydd naill ai'n cyfateb neu'n uwch na'r categori y bwriadwch chi wneud cais amdano – byddant wedi bod drwy'r broses eu hunain ac maent felly yn gallu deall yr ymrwymiad yr ydych chi'n ei ddangos i addysgu, dysgu a chynorthwyo myfyrwyr yn effeithiol drwy fod yn rhan o'r broses hon. Bydd eich mentor yn gallu eich helpu yn y broses ymgeisio, gan gynnwys darllen fersiwn ddrafft o'ch cais a rhoi adborth.](#)

4. Arweiniad sydd ar gael i gefnogi eich cais

Rhennir eich cais am Gymrodoriaeth yn **ddwy ran** (Disgrifydd 2):

- **Cyfrif ysgrifenedig o Ymarfer Proffesiynol**; Datganiad cyd-destun a Chyfrif Myfyriol o Ymarfer ar draws y pum maes gweithgaredd (gweler Adran 5)
- Datganiadau Cefnogi gan ddau ganolwr (gweler Adran 8)

Dylech ddarllen a defnyddio'r ddogfen ganllaw i ymgeiswyr am Gymrodoriaeth ar y cyd â dogfennau canllaw eraill; mae'r rhain i'w cael yn y 'pecyn' i ymgeiswyr a anfonwyd atoch neu drwy ddilyn y dolenni gwe isod:

- Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU 2011 (FfSP) ar gyfer addysgu a chynorthwyo dysgu ym maes addysg uwch (gweler Adran 2);
- Dogfennau canllaw **Dimensions of the Framework**: sy'n gyfres o ddogfennau canllaw a ysgrifennwyd ar gyfer unigolion sy'n ymgysylltu â Dimensiynau'r FfSP mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r dogfennau canllaw hyn yn rhoi esiamplau i ddangos ffyrdd gwahanol y gallai unigolion eu defnyddio i ddangos eu hymgysylltiad â Dimensiynau'r FfSP fel sy'n briodol i bob Disgrifydd o'r FfSP (gweler Adran 2). Dylai'r canllawiau eich helpu i wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng eich ymarfer eich hun a gwahanol Ddimensiynau'r FfSP:
 - Dimensions of the Framework
 - Dimensions of the Framework: staff in learning support roles
 - Dimensions of the Framework: doctoral supervisors
 - Dimensions of the Framework: college-based higher education
 - Dimensions of the Framework: music
 - Dimensions of the Framework: Digital lens on the UKPSF

Byddem yn argymhell eich bod yn defnyddio'r fersiwn/fersiynau mwyaf priodol i weddu i'ch cyd-destun proffesiynol a defnyddio'r canllawiau i'ch helpu i benderfynu pa dystiolaeth o'ch ymarfer y gallech ei chynnwys yn eich cais i ddangos lle mae'r ymarfer hwn yn gydnaws â gwahanol Ddimensiynau;

Templed Ymgeisio Cymrodwr: defnyddiwch y templed Word hwn i gyflwyno eich cais i'r Swyddfa Academaidd yn HEAapplications@uwtsd.ac.uk. Mae'r templed Cymrodoriaeth hefyd yn eich galluogi i rannu fersiwn derfynol eich cais gyda'ch canolwyr. Mae'r templed hwn i'w gael ar Moodle (modiwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen)

5. Eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol

Mae Cymrodoriaeth yn seiliedig ar fodloni Disgrifydd 2 (D2) o'r FfSP a'ch Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol yw elfen graidd eich cais. Mae'r Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol yn cynnwys Datganiad Cyd-destun (gweler Adran 5.2) a Chyfrif Myfyriol o Ymarfer wedi'i ysgrifennu yn erbyn y pump Maes Gweithgaredd.

Mae eich **Datganiad o Gyd-destun** yn rhoi crynodeb byr o'ch rolau, eich cyfrifoldebau a'ch profiad proffesiynol mewn addysg uwch a dylai eich **Cyfrif Myfyriol o Ymarfer (CMY)** ddarparu dystiolaeth bod eich ymarfer proffesiynol yn bodloni gofynion **Disgrifydd 2** yr FfSP.

Mae addysg uwch i'w chael mewn sawl ffurf a cheir cryn amrywiaeth yn y gwahanol rolau y

mae gweithwyr addysg uwch proffesiynol yn eu cyflawni; er enghraifft, o ran profiad, cefndir disgyblaethol, rôl swydd, cyd-destun sefydliadol, ayb. Mae eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol yn gyfrif personol a dylai ganolbwyntio, drwyddo, ar eich ymarfer proffesiynol chi; gwnewch e'n bersonol i'ch ymarfer penodol, unigol ac unigryw chi. Bydd eich Datganiadau Cefnogi yn dilysu bod yr hyn yr ysgrifennwch amdano yn eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol yn cynrychioli eich ymarfer mewn ffordd ddilys (gweler Adran 8).

Mae'n bwysig nodi y dylech ganolbwyntio ar ddangos eich ymarfer effeithiol hyd yma yn eich cais. Fe allech grybwyll o bosibl, eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r cyfrif o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac unrhyw newidiadau y bwriadwch eu gwneud i'r dyfodol; fodd bynnag, caiff eich cais ei farnu ar a yw eich tystiolaeth o ymarfer cyfredol a diweddar yn bodloni gofynion Disgrifydd 2.

Yn eich **Cyfrif Myfyriol o Ymarfer (CMY)**, dylech gynnwys rhesymeg briodol am eich dulliau gweithredu a dangos llwyddiant ac effeithiolrwydd eich ymarfer addysgu a/neu gynorthwyo dysgu. Dylai eich Cyfrif Myfyriol o Ymarfer fod yn seiliedig ar esiamplau dilys o'ch ymarfer a dylai ddatgan yn glir **beth** a wnewch, **pam/sut** ydych chi'n gwneud hynny yn y ffordd honno a **sut gwyddoch** fod hyn yn **effeithiol**.

Bydd disgrifio 'pam' y dewisoch bob dull yn eich galluogi i gynnwys y 'sylfaen dystiolaeth' sy'n llywio ac yn sylfaen i'ch ymarfer yn eich CMY; (gweler Adran 5.6). Mae angen ichi hefyd gynnwys ym mha ffyrdd y mae eich datblygiad proffesiynol wedi dylanwadu ar eich ymarfer personol (gweler Adran 5.7).

Darparwch esiamplau **dethol** o'ch ymarfer yn eich CMY a sicrhau eu bod yn uniongyrchol berthnasol i'ch cais am Gymrodoriaeth. Mae ansawdd yr esiamplau o dystiolaeth yn llawer pwysicach na'r nifer. Dylid dwyn esiamplau o'ch ymarfer cyfredol a diweddar (o fewn y 3 blynedd diwethaf) a rhaid iddynt fod yn berthnasol i addysgu a/neu gynorthwyo dysgu mewn addysg uwch. Os ydych yn myfyrio ar unrhyw ymarfer proffesiynol hanesyddol fel rhan o'ch tystiolaeth, sicrhewch eich bod yn canolbwyntio ar sut mae hyn nawr yn effeithio ar eich ymarfer presennol.

5.1 Cyfrif personol yw eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol

Meddyliwch am eich cais fel 'hawliad', rydych yn hawlio bod eich gwaith yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar addysg myfyrwyr. Bydd dau asesydd profiadol yn adolygu eich cais ac mae angen ichi ddangos i'r aseswyr hyn y ceir rhesymeg glir y tu ôl i'r ffordd rydych chi'n gweithio a'r dewisiadau a wnewch yn eich ymarfer.

Ysgrifennwch yn y person cyntaf (defnyddiwch 'fi') fel ei bod yn glir beth rydych **chi** yn/ wedi'i wneud. Ceisiwch osgoi trafod addysgu mewn termau haniaethol neu gyffredinol gan fod hyn yn symud y cais ymaith rhag bod amdano chi a'ch ymarfer personol eich hun ac ni fydd yn helpu eich 'hawliad' personol yn erbyn Disgrifydd 2. Os ydych eisiau cynnwys gwaith a wnaethoch fel rhan o dîm/gyda chydweithwyr, mae angen ichi fod yn glir beth oedd eich cyfraniad personol chi.

Rhaid ichi gyflwyno'r cais yn **Gymraeg neu Saesneg**.

Sylwer na fyddwn yn derbyn diagramau, delweddau, hyper-ddolenni nac unrhyw atodiadau/dogfennau eraill fel *curriculum vitae/résumé*.

5.2 Datganiad Cyd-destun

Datganiad Cyd-Destun (hyd at 300 gair) yw rhan gyntaf eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol a dylech gyflwyno eich hun **yn gryno** ac **amlinellu** eich rôl(au) a'ch cyfrifoldebau yn addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgu mewn addysg uwch. Bydd y wybodaeth yn eich Datganiad Cyd-destun yn helpu'r adolygwyr i ddeall natur eich gwaith a'r cyd-destun rydych chi'n ymarfer ynddo, cyn iddynt edrych ar y dystiolaeth a ddarparwch yn eich Cyfrif Myfyriol o Ymarfer (CMY) yn erbyn Disgrifydd 2 yr FfSP; mae'r adran hon yn cynnwys y **cefndir** i'ch CMY ac ni chaiff ei 'asesu' yn erbyn Disgrifydd 2.

Heb fod dros 300 o eiriau, dylai eich Datganiad Cyd-destun:

- Ddarparu crynodeb **byr** o'ch profiad o addysgu a/neu gynorthwyo dysgu, gan gynnwys y cyd-destun rydych yn gweithio ynddo ar hyn o bryd, eich rôl a'ch cyfrifoldebau presennol wrth addysgu a/neu gynorthwyo dysgu. Enwi'r math o sefydliad(au) rydych chi'n gweithio iddynt, a'r lleoliad, oherwydd fe fydd hyn yn helpu i egluro'r cyd-destun ar gyfer eich gwaith, ond cofiwch gadw hwn yn fyr ac yn berthnasol i'ch rôl. Peidiwch â chynnwys manylion am hanes a bri'r sefydliad(au), gan mai amdanoch chi a'ch Ymarfer y mae eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol;
- Cyfeirio at y myfyrwyr rydych chi'n gweithio â nhw; er enghraifft, lefel astudio (e.e. blwyddyn astudio, israddedigion, ôl-radd, ayb.), rhaglen(ni)/uned(au) astudio, disgyblaeth/maes gwaith arbenigol, nifer a mathau o ddysgwyr, ayb.;
- Cyfeiriwch at unrhyw waith perthnasol gyda chydweithwyr/grwpiau allanol/sefydliadau eraill y bwriadwch eu cynnwys a'u trafod yn eich CMY;
- Canolbwyntiwch ar eich **ymarfer presennol neu ddiweddar**, a ddylai fod o fewn y 3 blynedd diwethaf. Cofiwch fod eich cais am Gymrodoriaeth yn seiliedig ar eich **ymarfer addysg uwch**; os ydych hefyd yn gweithio mewn rolau addysgu neu ddysgu eraill y tu allan i addysg uwch ni ddylech gynnwys hyn yn eich cais (gweler Adran 2 am wybodaeth bellach am bwy sy'n gymwys am Gymrodoriaeth).

Gan nad yw'r Datganiad Cyd-destun yn rhan o'r cais a gaiff ei asesu, nid oes angen ichi gysylltu'r wybodaeth hon â'r FfSP. Ni fydd yr adolygwr yn ystyried y wybodaeth yn y Datganiad Cyd-destun pan fyddant yn asesu eich cais; felly, **ni ellir** ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth ategol a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o ymarfer effeithiol i'ch 'hawliad' am Gymrodoriaeth yn eich CMY (h.y. ni ellir ei ddefnyddio i ymestyn terfyn geiriau eich CMY).

Mae'r ddwy esiampl isod yn dangos y mathau o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'w cynnwys yn y Datganiad Cyd-destun i ddisgrifio cefndir eich ymarfer:

Esiampl 1:

Rwy'n Ddarlithydd mewn Daearyddiaeth yn yr Ysgol Ddaearyddiaeth a'r Amgylchedd ym Mhrifysgol X, sy'n brifysgol fodern fawr sydd â'i phrif gampws yn X. Rwyf hefyd yn addysgu myfyrwyr yn ein campws rhyngwladol yn Y yn ystod ymweliad blynyddol tair wythnos.

Bûm yn addysgu'n rhan amser i ddechrau pan oeddwn yn Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Y am flwyddyn ac yna ymunais â Phrifysgol X dair blynedd yn ôl fel darlithydd amser llawn.

Rwy'n addysgu ar lefel gradd ac ôl-radd ar draws pob grŵp blwyddyn. Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon, deuthum yn Arweinydd Modiwl i'r modiwl Newid Amgylcheddol Byd-eang ar ôl bod yn gyd-Arweinydd Modiwl yn flaenorol i'r modiwl Sgiliau Ymchwil mewn Daearyddiaeth Ffisegol; mae'r ddau fodiwl yn ail flwyddyn y rhaglen radd.

Mae fy addysgu presennol yn cynnwys:

- + Ôl-radd: (2 fodiwl a restrwyd)
- + Gradd: (5 modiwl a restrwyd)

Rwy'n darlithio gerbron grwpiau o oddeutu 80 o fyfyrwyr gradd a 30 o fyfyrwyr ôl-radd bob wythnos. Rwyf hefyd yn cynnal seminarau wythnosol gyda grwpiau o 10-15 o fyfyrwyr ac yn gweithredu fel tiwtor personol i 8 o fyfyrwyr gradd. Hefyd, rwy'n goruchwyllo 2 fyfyrwr PhD ar hyn o bryd.

Rydyn ni wrthi'n ail-ddylunio ein cwricwlwm gradd ac rwy'n arwain ar y gwaith o ddatblygu a dilysu dau fodiwl newydd ar gyfer yr ail flwyddyn.

Esiampl 2:

Rwy'n Addysgwr Nyrsio Clinigol, gyda chefnidir arbenigol mewn meddygaeth Damweiniau ac Achosion Brys (A&E). Rwy'n Nyrs Gofrestredig o hyd, yn ymarfer yn fy lleoliad clinigol, ond rwyf hefyd yn aelod o'r Gyfadran Glinigol ym Mhrifysgol X fel rhan o'm rôl.

Am y tair blynedd diwethaf, bûm yn addysgu myfyrwyr nyrsio israddedig o'r tri grŵp yn y Brifysgol ar draws amrywiol fodiwlau.

Mae fy addysgu ar hyn o bryd yn cynnwys darlithoedd seiliedig ar theori i grwpiau o oddeutu 90 o fyfyrwyr a hefyd rwy'n addysgu grwpiau bach o 10-20 o fyfyrwyr. Mae'r addysgu grwpiau bach yn golygu sesiynau ymarferol mewn ystafelloedd efelychiadau at y pwrpas; mae hyn yn efelychu sefyllfaoedd go iawn, yn ogystal â thriniaethau arferol, y bydd y myfyrwyr yn eu hwynebu wrth weithio yn yr ysbyty. Bûm hefyd yn gysylltiedig â chreu deunyddiau dysgu seiliedig ar fideos a ffilmiau ac adnoddau e-ddysgu.

Yn fy rôl yn y gyfadran, rwy'n gysylltiedig â phob agwedd ar addysgu a dysgu, gan gynnwys dylunio a datblygu'r cwricwlwm. Fel rhan o'm gwaith yn yr ysbyty addysgu, rwy'n goruchwyllo ymarfer clinigol myfyrwyr nyrsio ac yn gweithredu fel mentor. Rwyf hefyd yn cynorthwyo datblygiad proffesiynol fy nghyd-nyrsys.

5.3 Strwythuro eich Cyfrif Myfyriol o Ymarfer (CMY)

Caiff **Cyfrif Myfyriol o Ymarfer (CMY)** ei lunio mewn dwy adran; rydych yn ysgrifennu am eich ymarfer o safbwynt **pump Maes Gweithgaredd** yr FfSP (gweler Adrannau 6 a 7 am arweiniad pellach).

Yn ogystal â chynnwys y pum Maes Gweithgaredd, i roi sylw i Ddisgrifydd 2, mae angen ichi hefyd sicrhau ar draws y pum adran o'r CYP eich bod yn cynnwys tystiolaeth eich bod yn defnyddio'r chwech agwedd ar y **Wybodaeth Graidd** yn effeithiol a bod y pedwar **Gwerth Proffesiynol** yn llywio eich ymarfer.

Fe welwch fod Adrannau 6 a 7 isod yn cyfeirio'n aml at ganllaw **Dimensions of the framework** AU Ymlaen oherwydd fe ddylai'r arweiniad hwn wir eich helpu i wneud cysylltiadau priodol rhwng eich ymarfer a Dimensiynau'r FfSP a dewis tystiolaeth berthnasol i'w chynnwys yn eich cais.

Wrth ichi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y Dimensiynau, dylech dynnu sylw at hyn lle bo'n berthnasol. Un ffordd o wneud hyn yw cyfeirio at y Dimensiwn yn eich testun, e.e. (V2) neu (K1) ayb. Sicrhewch nad ydych ond yn cysylltu'r **Dimensiynau mwyaf perthnasol** ym mhob achos (e.e. un neu ddau yr ydych wedi ymgysylltu â nhw'n ystyrion yn yr esiampl benodol honno o ymarfer) a chofiwch osgoi cynhyrchu rhestr hir o gysylltiadau â Dimensiynau (e.e. K1, K2, K4, V1, V2, V3) gan na fydd hyn yn dangos eich ymgysylltiad *ystyrion* â'r Dimensiynau.

Wrth benderfynu pa esiamplau o ymarfer y bwriadwch eu defnyddio ym mhob Maes Gweithgaredd (A1-5) mae'n bwysig ichi beidio â dibynnu ar yr un esiamplau gan fod hyn yn annhebygol o ddarparu tystiolaeth *ddigonol* bod eich ymarfer yn bodloni holl ofynion Disgrifydd 2. Fodd bynnag, dewiswch eich esiamplau yn ofalus oherwydd fe allai gormod o esiamplau gyfyngu ar eich gallu i ddangos eich ymarfer llwyddiannus ac effeithiol yn erbyn pob Maes Gweithgaredd er mwyn gwneud 'hawliad' cadarn yn erbyn Disgrifydd 2.

O fewn y geiriau cyfyngedig sydd ar gael, ni fyddwch yn gallu ysgrifennu am bopeth a wnewch a rhaid ichi fod yn ofalus wrth ddewis yr esiamplau i ysgrifennu amdanynt. Dewiswch esiamplau sy'n dangos orau eich gwaith ym mhob Maes Gweithgaredd ac sy'n caniatáu ichi ddangos elfennau penodol y Wybodaeth Graidd a'r Gwerthoedd Proffesiynol gofynnol (gweler Adran 5.4 isod ynglŷn â therfyn geiriau CMY).

5.4 Terfyn Geiriau CMY

Y terfyn geiriau cyffredinol ar gyfer CYP Cymrawd yw **3,000 o eiriau ynghyd â dyfyniadau (500 gair); cyfanswm geiriau o 3,500**. Sylwer bod y Swyddfa Academaidd yn cyfri'r geiriau fel rhan o'r broses gyflwyno.

Mae arnom angen oddeutu 600 gair ym mhob un o'r pump adran ynghyd â dyfyniadau.

5.5 Myfyrio ar eich ymarfer drwy eich CMY

Mae datblygu eich CMY yn gofyn ichi nodi/casglu ac ystyried tystiolaeth o'ch ymarfer, gan fyfyrio ar yr effaith a wnaethoch ar ddysgu'r myfyrwyr. Wrth ysgrifennu eich CMY, dylech osgoi disgrifiadau hir o'r hyn a 'wnewch' a chymryd safiad **myfyriol** fel ei bod yn glir beth ydych yn ei wneud, sut/pam rydych chi'n ei wneud e fel hynny, sut gwyddoch fod hyn yn effeithiol a beth fyddwch yn ei wneud i'r dyfodol o'r herwydd.

Un **model myfyriol** ichi ei ddefnyddio drwy eich CMY fyddai esbonio'n glir:

- **Beth** a wnewch (dewiswch esiamplau'n ofalus i'w cynnwys – gweler Adran 5.3);
- **Pam** ydych chi'n ei wneud e fel hyn; eglurwch eich dull yn glir a chyfiawnhau eich dewisiadau a'ch penderfyniadau (e.e. defnyddio'r Gwerthoedd Proffesiynol i arwain y gwaith cynllunio, defnyddio sylfaen dystiolaeth briodol i lywio eich dull, ayb.);
- **Pam** eich bod yn defnyddio'r dull hwn (e.e. gan gynnwys unrhyw heriau neu faterion ymarferol penodol rydych wedi'u goresgyn);
- Sut rydych chi'n **gwerthuso effeithiolrwydd** yr hyn a wnewch (eglwurwch y mathau o 'wybodaeth' a ddefnyddiwyd i adolygu a gwerthuso eich gwaith gan gynnwys yr effaith a gaiff hyn ar ddysgu eich myfyrwyr);
- **Pa newidiadau** a wnaethoch o ganlyniad i werthuso eich effeithiolrwydd (er enghraifft, efallai eich bod wedi adolygu'r strategaeth asesu ar gyfer modiwl mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr/gydweithiwr ac yna wedi gwerthuso effeithiolrwydd y newid a wnaethoch);
- Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn **parhau i ddatblygu a gwella** eich ymarfer; er enghraifft, adolygiadau gan gymheiriaid, datblygu eich sylfaen dystiolaeth (D2.V) neu ymdrech i ddatblygu'n bersonol (D2.VI), ayb. a defnyddio'r dysgu hwn i wella eich ymarfer (defnyddiwyd esiamplau i ddangos).

5.6 Cyfeirio at y sylfaen dystiolaeth sy'n llywio ac yn ategu eich ymarfer (D2.V)

Bydd angen ichi gyfeirio at ymarferion proffesiynol perthnasol, ymchwili i bwnc neu addysgeg a/neu ysgolheictod yn eich cais (D2.V) i egluro sut/pam rydych wedi dewis eich dulliau gweithredu. Bydd sut rydych yn cyflwyno tystiolaeth o hyn yn dibynnu ar y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo, natur y pwnc, y ddisgyblaeth neu'r proffesiwn rydych chi'n addysgu ynddo a chyd-destun/disgwyliadau'r sefydliad lle'r ydych chi'n gweithio.

Oherwydd y byddwch yn ysgrifennu am eich dull o addysgu a dysgu yn eich CYP, dylech ddyfynnu/cyfeirio at y 'sylfaen dystiolaeth' a ddefnyddiwyd i lywio eich ymarfer lle bo'n briodol yn eich CYP. Er enghraifft, fe allech ddyfynnu llenyddiaeth ysgolheigaidd fel cyfnodolion (e.e. Smith, 2019), cyhoeddiadau, llyfrau, gwefannau, ayb. neu gyfeirio at dystiolaeth o gyrff proffesiynol, o'r diwydiant neu eich disgyblaeth (eich sylfaen 'wybodaeth broffesiynol'). Os ydych yn dyfynnu cyfeiriad, rhaid iddi fod yn amlwg sut mae hyn wedi dylanwadu ar eich ymarfer (h.y. ni ddylech ond 'gollwng' y dyfyniad i mewn). Er enghraifft, gallech egluro sut gawsoch eich ysbrydoli gan destun penodol neu erthygl mewn cyfnodolyn i gynllunio eich amgylchedd dysgu mewn ffordd benodol.

Os dyfynnwch yn nhestun eich CYP, mae angen ichi gynnwys y cyfeiriad llawn mewn rhestr ar ddiwedd yr adran berthnasol o'ch CYP. Mae eich terfyn geiriau yn cynnwys hyd at 500 gair

ar gyfer eich rhestr gyfeiriadau. Gofynnwn ichi ddarparu rhestr lawn o'r holl gyfeiriadau'r ydych chi'n eu dyfynnu'n uniongyrchol fel bod yr adolygwyr yn glir ynglŷn â pha ffynonellau sydd wedi dylanwadu ar eich dull gweithredu o safbwynt dysgu ac addysgu ac er mwyn rhoi'r clod priodol i awdur/sefydliad sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd o'ch ymarfer. Defnyddiwyd ddyfyniadau yn y testun. (h.y. ni chaiff troednodiadau eu derbyn).

Mae'r **dyfyniad** byr hwn o gais am Gymrodoriaeth yn dangos sut mae'r ymgeisydd yn **defnyddio ei sylfaen dystiolaeth i lywio ei ymarfer (D2.V)** ac yn dangos hyn yn ei gais:

Fel rhan o'm bwriad i weithredu 'dysgu gwrthdro' (Bergmann and Sams, 2012) (A1) yn un o'm modiwlau, roeddwn wedi creu deunyddiau cyn y sesiwn a gynhaliwyd ar ein Hamgylchedd Dysgu Rhithiol (K4); ond drwy ddadansoddeg yr amgylchedd dysgu rhithiol gallwn weld mai ychydig iawn o fyfyrwyr wnaeth ymgysylltu â'r deunyddiau hyn. Arweiniodd hyn at amrywiaeth o broblemau yn y sesiynau wyneb yn wyneb. Wedi fy ysbrydoli gan erthygl a ddarllenais (Iwamoto *et al*, 2017), fe wnes i greu cyfres o gwisau ac e-broffion byr i greu amgylchedd dysgu rhithiol mwy diddorol a darparu adborth ffurfiannol i gynorthwyo'r dysgu (V3, A4). Dangosodd dadansoddeg yr amgylchedd dysgu rhithiol fod y newid hwn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn ymgysylltiad y myfyrwyr cyn sesiynau ac adroddai adborth y myfyrwyr eu bod yn teimlo bod y gweithgareddau hyn yn eu hysgogi ac yn hwyliog (K5). Mae dysgu gwrthdro yn awr yn gweithio'n llawer gwell yn y modiwl hwn ac rwy'n gallu treulio amser y sesiwn yn canolbwyntio ar ymestyn dealltwriaeth o'r testun drwy drafodaethau grŵp a gweithgareddau datrys problemau (K3).

Rhestr Gyfeiriadau ar gyfer y dyfyniad:

Bergmann, J., & Sams, A. (2012). Flip Your Classroom: Reach Every Student in Every Class Every Day. Washington DC: *International Society for Technology in Education*, 120-190

Iwamoto, D., Hargis, J., Taitano, E. and Vuong, K. (2017). Analyzing the efficacy of the testing effect using Kahoot on student performance. *Turkish Online Journal of Distance Education*. (2) 7, 80-93

5.7 Ymgysylltu mewn gweithgaredd datblygu proffesiynol o safbwynt addysgu, dysgu a chyfrifoldebau asesu (D1.VI)

Mae ymgysylltu mewn dysgu proffesiynol parhaus yn rhan annatod o'ch rôl fel addysgwr. Dylai eich CYP adlewyrchu eich ymgysylltiad mewn datblygu proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch chyfrifoldebau addysgu a dysgu a dylai egluro sut mae'r dysgu a wnaethoch o'r datblygu hwn wedi cael ei weithredu yn eich ymarfer a/neu wedi'i wella. Mae tystiolaeth o'ch ymgysylltiad mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol yn ofynnol ar gyfer rhoi sylw i D2.VI a Dimensiynau V3 a A5 er enghraifft.

Fe allwch fynychu digwyddiadau ffurfiol fel cyrsiau/gweithdai/symposia/cynadleddau ond fe all gweithgareddau 'datblygu proffesiynol' hefyd gynnwys cyfleoedd dysgu ffurfiol/anffurfiol. Er enghraifft, dysgu oddi wrth gydweithwyr (e.e. adolygu gan gymheiriaid/ mentora/ datblygu'r cwricwlwm/ blogiau, ayb.), oddi wrth fyfyrwyr (gwaith myfyrwyr fel partneriaid/ grwpiau ffocws/ ymchwil gweithredol, ayb.), oddi wrth theori ysgolheigaidd, profiad yn y proffesiwn/diwydiant, ayb.

Esiamp! i ddangos sut gallech integreiddio tystiolaeth o D2.VI i'ch cais:

Fel darlithydd mewn Troseddeg, rydych yn egluro sut rydych yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf yn eich disgyblaeth (K1) a sut ydych wedi defnyddio dadansoddiadau trylwyr o ddigwyddiadau cyfoes i ysgogi gwybodaeth a meddwl beirniadol am droseddeg a chyfiawnder troseddol ymysg eich dysgwyr (K2, V4). Rydych chi hefyd yn trafod pam a sut y gwnaethoch, ar ôl gweithdy y buoch ynddo am ddatblygu dull sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr a darllen papur gan Bovill *et al* (2011), drefnu cyfres o weithgareddau sy'n gofyn am rôl weithgar a chyfranogol (V2). Rydych yn trafod yr effaith a gafodd hyn ar eich dysgwyr ac unrhyw newidiadau a weithredoch ar ôl cynnal arolwg o'r myfyrwyr ar ganol y modiwl i werthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn (K5).


Rhestr Gyfeiriadau ar gyfer y dyfyniad:

Bovill, C., Cook-Sather, A. and Felten, P. (2011). Students as co-creators of teaching approaches, course design, and curricula: implications for academic developers, *International Journal for Academic Development*, 16 (2), 133-145. Ar gael yn DOI: [10.1080/1360144X.2011.568690](https://doi.org/10.1080/1360144X.2011.568690)

6. Tystiolaeth o Ddimensiynau'r FfSP sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 2

Er bod y CMY ar gyfer ceisiadau Cymrodoriaeth (D2) wedi'i strwythuro o amgylch y pum Maes Gweithgaredd (A1-5), nid yw hyn yn golygu bod y Meysydd Gweithgaredd yn bwysicach na'r Dimensiynau Gwybodaeth Graidd neu Werthoedd Proffesiynol; bydd y Dimensiynau yn **rhyng-ddibynnol ac yn integredig** yn eich ymarfer Proffesiynol; yn syml, y Meysydd Gweithgaredd yw'r hyn a wnewch, y Wybodaeth Graidd yw'r hyn mae angen ichi wybod i gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol a dylai'r Gwerthoedd Proffesiynol lywio ac ategu eich gwaith.

Ar draws 3,000 o eiriau eich CYP, yn ogystal â dangos y pum Maes Gweithgaredd (A1-5), mae angen ichi sicrhau eich bod hefyd yn dangos y chwe agwedd ar Wybodaeth Graidd (K1-6) a'r pedwar Gwerth Proffesiynol (V1-4) fel sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 2.



Ffigur 1: Yn dangos sut mae Dimensiynau'r FfSP wedi'u hintegreiddio yn Nisgrifydd 2

Esiaml i ddangos fel mae'r Dimensiynau yn rhyng-ddibynnol ac integredig:

I ddylunio a chynllunio eich sesiynau ar gyfer modiwl yn llwyddiannus (A1) mae gofyn ichi ddefnyddio'r lefel briodol o wybodaeth am y pwnc (K1) a dewis dulliau addysgu a dysgu priodol (K2). Mae angen ichi hefyd ystyried anghenion unigolion yn eich grŵp myfyrwyr (V1) a chynllunio'n briodol fel bod eich myfyrwyr yn cael cyfle i ymgysylltu'n llwyr â'r gweithgareddau dysgu'r ydych yn eu trefnu ac yn cael eu cynorthwyo'n briodol i wneud asesiad y modiwl (V2).

Mae'r ddogfen ganllaw **Dimensions of the Framework** yn rhoi ichi esiamplau i'ch helpu i adnabod lle'r ydych chi'n defnyddio Gwybodaeth Graidd a Gwerthoedd Proffesiynol yr FfSP yn eich ymarfer. Yn y pum Maes Gweithgaredd, dewiswch roi tystiolaeth o'r agweddau ar y Wybodaeth Graidd a'r Gwerthoedd Proffesiynol sy'n arbennig o berthnasol i'ch gwaith chi yn y Maes hwnnw; gan sicrhau ar draws y pum Maes Gweithgaredd eich bod wedi dangos eich ymgysylltiad â'r chwech agwedd ar y Wybodaeth Graidd a'r pedwar Gwerth Proffesiynol.

Esiampl i ddangos sut gallai Gwerthoedd Proffesiynol lywio'r cynllunio ar gyfer addysgu modiwl (A1):

Mae Stefan yn ymwybodol o amrywiaeth ei grwpiau israddedigion blwyddyn gyntaf, yn rhannol oherwydd i'w adran fod yn rhan o gynlluniau maes i ehangu cyfranogaeth ymysg grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg yn y maes disgyblaeth. Mae ganddo hefyd gyfran uchel o fyfyrwyr rhyngwladol. Wrth gynllunio ei addysgu ar gyfer y tymor cyntaf, mae'n ystyried y gwahaniaethau posibl yng nghefnidir addysgol blaenorol ei fyfyrwyr newydd pan gyrhaeddant y brifysgol (V2).

Mae Stefan yn defnyddio gwaith Verenikina (2008) ac yn defnyddio amrywiol strategaethau i hybu dysgu cynhwysol a chefnogi'r amrywiaeth eang o ddysgwyr yn ei grŵp (A4, V3). Mae'n defnyddio gweithgareddau ar-lein megis fforymau i hybu dysgu gan gymheiriaid drwy gydweithredu a chefnogi datblygiad sgiliau iaith i fyfyrwyr ail iaith (K4). Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n seiliedig ar esiamplau go iawn o gyd-destunau amrywiol sy'n annog myfyrwyr i wneud cyfraniadau gwerthfawr i'r grŵp drwy ddefnyddio eu profiadau blaenorol (K1, V1). Mae'n gofalu ei fod yn sgaffaldio'r dysgu i ddatblygu annibyniaeth gynyddol drwy'r modiwl ac yn darparu asesiad ffurfiannol cynnar i feithrin hyder a'i fwydo ymlaen i dasgau asesu i'r dyfodol (K2, A3).

Rhestr Gyfeiriadau ar gyfer y dyfyniad:

Verenikina, I. (2008) Scaffolding and learning; its role in nurturing new learners. *University of Wollongong Research Online*. Ar gael yn <https://ro.uow.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1043&context=edupapers> (cyrchwyd 27/02/20)

Mae Adran 7 isod yn canolbwyntio ar y pum Maes Gweithgaredd. Ar ôl pob Maes Gweithgaredd, darperir esiampl i'ch helpu ymhellach i ddeall sut allech chi ddangos tystiolaeth o Ddimensiynau gofynnol yr FfSP wrth ysgrifennu yn erbyn y Maes Gweithgaredd hwnnw mewn cais am Gymrodoriaeth (Disgrifydd 2).

7. Dangos tystiolaeth o'r pum Maes Gweithgaredd

Mae eich cais am Gymrodoriaeth wedi'i strwythuro o amgylch pob un o'r pum Maes Gweithgaredd. Mae penderfynu pa esiamplau o'ch ymarfer i'w cynnwys dan bob Maes Gweithgaredd yn gam pwysig wrth gynllunio a datblygu eich cais. Efallai hoffech chi fapio eich tystiolaeth debygol yn erbyn pob un o'r Meysydd Gweithgaredd er mwyn ichi allu cydbwysu eich tystiolaeth ar draws eich CYP er mwyn gwneud 'hawliad' cadarn yn erbyn Disgrifiad 2.

Mae'r arweiniad isod yn egluro pob Maes Gweithgaredd ymhellach. Wrth ichi ystyried pob Maes Gweithgaredd isod, dylech hefyd gyfeirio'n agos at y ddogfen ganllaw/dogfennau canllaw **Dimensions of the Framework** wrth ichi ystyried pa esiamplau o ymarfer y gallech chi ddewis ysgrifennu amdanynt.

Mae'n bwysig cofio bod rhaid ichi hefyd, ar draws y pum Maes Gweithgaredd, ddangos tystiolaeth o'r holl Wybodaeth Graidd (K1-6) a'r pedwar Gwerth Proffesiynol (V1-4) yn ogystal â dangos eich ymgysylltiad effeithiol ag ysgolheictod (D2.V) a datblygu Proffesiynol (D2.VI).

7.1 Dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 1: Dylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu a/neu raglenni astudio

Mae Maes Gweithgaredd 1 yn cyfeirio at yr hyn a wnewch i ddylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu, boed hynny mewn amgylchedd dysgu wyneb yn wyneb neu rithiol.

Ffocws Maes Gweithgaredd 1 (A1) yw'r gwaith paratoi a wnewch ar gyfer eich ymgysylltiad â dysgwyr. Nid ar eich ymarfer addysgu chi na'r amgylchedd dysgu y dylai'r ffocws fod, daw'r rhain o dan A2 ac A4 (er y gellid bod gorgyffyrddiadau rhwng A1 a'r Dimensiynau hyn). Er bod Maes Gweithgaredd 1 yn ymwneud â dylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu, bydd angen ichi ddangos bod eich gwaith cynllunio a dylunio wedi bod yn effeithiol; h.y. ar effeithiolrwydd yr ymarfer a fu rydych chi'n myfyrio ac nid ar yr ymarfer rydych chi wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bydd y dystiolaeth o ddylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu yn amrywio yn ddibynnol ar gyd-destun eich gwaith a cheir nifer o wahanol fathau o dystiolaeth yn erbyn Maes Gweithgaredd 1 y gallai Cymrodwr eu dangos. Bydd y ddogfen ganllaw **Dimensions of the Framework** yn rhoi ichi ddewis o esiamplau nodweddiadol y mae ymgeiswyr yn eu defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn Disgrifiad 2. Yn ddibynnol ar eich rôl a'r cyd-destun fe allech fod yn dylunio ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu, sesiynau, modiwlau, cyrsiau a/neu raglenni.

Bydd gwahanol ffactorau yn effeithio ar y ffordd rydych chi'n cynllunio ac yn paratoi eich gweithgareddau dysgu, er enghraifft; lefel AU y myfyrwyr, y canlyniadau dysgu ar gyfer modiwl/rhaglen astudiaeth neu'r gweithgaredd cynorthwyo dysgu. Mae angen ichi ddangos eich bod yn deall bod yr hyn rydych chi'n gynllunio yn briodol i'ch dysgwr/dysgwyr. Ym mhob achos, dylai eich gwaith dylunio a chynllunio adlewyrchu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o Wybodaeth Graidd berthnasol a chael eu llywio gan Werthoedd Proffesiynol priodol a'ch sylfaen dystiolaeth.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif ffyrdd a ddefnyddiwyd i ddylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu/ sesiynau/ modiwlau/unedau/ cyrsiau (fel sy'n briodol i'ch ymarfer);
2. Y rhesymau am eich dewis o:
 - a. deunyddiau pwnc;
 - b. yr arddulliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd;
 - c. gweithgareddau dysgu/ technolegau/ adnoddau a gynhwysir yn eich cynllun.
3. Sut i wneud dewisiadau i hwyluso dysgu i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr a nodau'r dysgu/ lefel/ maes pwnc/ cwricwlwm, ayb;
4. Sut ac ymhle ydych chi wedi cynnwys Gwybodaeth Graidd a Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol yn yr esiampiau o'ch ymarfer a drafodwch;
5. Pa mor effeithiol mae eich gwaith dylunio a chynllunio wedi esgor ar brofiad dysgu da i'ch holl fyfyrwyr.

Cynhwysir yr esiamp isod i'ch helpu i ddeall sut allai ymarfer sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 1 gael ei arddangos a'i gysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill.

Esiamp i'ch helpu i feddwl am A1: Ail-ddylunio modiwl

Mae Sara yn defnyddio esiamp o sut wnaeth hi ail-ddylunio modiwl fel rhan o'i thystiolaeth ar gyfer A1.

Yn yr esiamp hon, mae Sara yn canolbwyntio ar fodiwl dulliau ymchwilio y gwnaeth hi ei ail-ddylunio. Mae'n dechrau drwy roi disgrifiad byr o'r cyd-destun; gan gynnwys y maes pwnc, lefel yr astudiaeth a'r rhesymau pam bod angen ail-ddylunio'r modiwl. Mae Sara yn trafod sut penderfynodd hi ar y dull gweithredu ac fel wnaeth hi ymgynghori â myfyrwyr a chydweithwyr eraill yn ystod y gwaith datblygu i sicrhau ei bod wedi ystyried sut byddai'r dysgu ar y modiwl yn datblygu'r sgiliau ymchwilio sy'n ofynnol i astudio ar y rhaglen ac yn bodloni anghenion y myfyrwyr orau.

Eglura Sara sut cafodd y dyluniad ei ddylanwadu gan ddysgu a wnaeth mewn digwyddiad y bu ynddo a gan ddwy erthygl ar addysgeg yn ei maes yr oedd hi wedi'u cael yn ddefnyddiol dros ben. Penderfynodd ddefnyddio dull dysgu seiliedig ar broblemau a oedd yn cynnwys cyfres o weithdai, gyda phob un yn canolbwyntio ar her benodol o fewn y ddisgyblaeth (A5, K2, V3). Defnyddiodd ei phrofiad blaenorol mewn diwydiant i ddarparu rhai o'r astudiaethau achos enghreifftiol ar gyfer y gweithdai (K2, V4).

Yn olaf, mae Sara yn trafod fel gwnaeth hi sicrhau bod dyluniad y model yn briodol ar gyfer y lefel astudiaeth yn y ddisgyblaeth ac yn cyd-fynd â fframwaith ansawdd y brifysgol (K6). Yn olaf, mae'n trafod sut wnaeth hi werthuso'r modiwl i ystyried yr effaith ar ddysgu'r myfyrwyr a pham dewisodd hi ei werthuso fel hyn (K5). Mae'n cyfeirio at beth oedd wedi gweithio'n dda ac at rai elfennau y mae'n bwriadu eu newid i'r dyfodol.

7.2 Dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 2: Addysgu a/neu gynorthwyo dysgu

Mae'r Maes Gweithgaredd hwn yn ymwneud â'ch cyswllt a'ch ymgysylltiad uniongyrchol chi â dysgwyr boed hynny mewn grwpiau neu'n unigol, wyneb yn wyneb neu o bell. Yn ddibynnol ar y cyd-destun rydych chi'n addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgu ynddo, fe allai eich ymarfer fod yn seiliedig ar sesiynau ffurfiol, drwy amserlen neu fe allai fod y tu allan i ddosbarthiadau wedi'u trefnu ac yn fwy anffurfiol ei natur.

Yn ddibynnol ar natur eich ymarfer, fe allai eich tystiolaeth ar gyfer Maes Gweithgaredd 2 gynnwys addysgu neu gymorth ar gyfer gweithgareddau dysgu megis darlithio, gwaith tiwtorialau a seminarau, addysgu neu fentora yn y gweithle, stiwdio, labordy, clinigol, goruchwyliaeth, dysgu ar-lein a defnyddio amgylcheddau dysgu rhithiol, ayb. Mae'r canllaw **Dimensions of the Framework** yn rhoi esiamplau nodweddiadol o weithgareddau addysgu a/neu gynorthwyo dysgu y mae Cymrodyr wedi dangos tystiolaeth ohonynt.

Dylai'r esiamplau a ddewiswch i'w cynnwys yn eich cais ddangos eich ymwybyddiaeth o wahanol arddulliau a dulliau o addysgu a/neu gynorthwyo dysgu sy'n briodol i'ch cyd-destun chi a dylent egluro sut gwnaethoch ddewis y dull mwyaf priodol i fodloni anghenion eich dysgwyr a chyflawni'r nodau dysgu.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif ffyrdd a ddefnyddiwyd i addysgu a/neu gynorthwyo dysgwyr;
2. Y gweithgareddau neu'r technegau a ddefnyddiwyd a'r rhesymeg dros y dewis hwn. Sut mae eich grŵp(iau) myfyrwyr a'r nodau/amcanion dysgu yn dylanwadu ar eich addysgu/cymorth dysgu?
3. Pam yn eich barn chi y bu eich gweithgareddau/technegau addysgu a dysgu yn llwyddiannus i gynorthwyo'r myfyrwyr i ddysgu. A ydych yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r dyfodol a pham?
4. Sut ydych chi'n cynnwys Dimensiynau eraill y Fframwaith megis:
 - Gwybodaeth Graidd berthnasol y gwnaethoch ei defnyddio;
 - Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich ymarfer.

Cynhwysir yr esiampl isod i'ch helpu i ddeall sut allai ymarfer sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 2 gael ei arddangos a'i gysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill.

Esiampl i'ch helpu i feddwl am A2: Addysgu ar draws gwahanol lefelau a grwpiau o fyfyrwyr

Arferai Mitsuki weithio mewn rôl busnes masnachol ac mae bellach yn ddarlithydd mewn Gwyddorau Rheoli,

Mae Mitsuki yn dechrau drwy amlinellu'r amrywiol fathau o ddulliau addysgu y mae'n eu defnyddio yn ei disgyblaeth, ac yn egluro'r perthnasedd penodol i fyfyrwyr ar wahanol gamau yn eu hastudiaethau (K2), gan ddefnyddio'r llenyddiaeth ar ddysgu yn y ddisgyblaeth i egluro'r gwahanol ddulliau mae'n eu defnyddio (K3, V3). Mae Mitsuki yn deall bod angen iddi ddangos tystiolaeth o ddealltwriaeth eang o ddulliau effeithiol o addysgu a chynorthwyo dysgu' ar gyfer Disgrifydd 2 felly mae'n rhoi nifer o esiamplau o'i haddysgu, gan gynnwys tystiolaeth o wahanol Wybodaeth Graidd a Gwerthoedd Proffesiynol. Yna mae'n myfyrio'n feirniadol ar ddwy esiampl wahanol mewn mwy o fanylder.

Mae un esiampl yn cynnwys y darlithoedd rhyngweithiol y mae Mitsuki wedi'u datblygu i gefnogi carfan fawr ar gwrs cyflwyniadol i reoli. Mae'n amlinellu'r heriau a wynebodd i ddechrau wrth addysgu grwpiau mawr ac yn egluro sut mae hi'n awr yn ennyn diddordeb y myfyrwyr, gan ddefnyddio dulliau rhyngweithiol y darllenodd amdanynt mewn dwy erthygl mewn cyfnodolyn addysg reoli (K2, V3, D2.V). Mae'n disgrifio'n fyr sut mae'n defnyddio'r dulliau hyn a'r effaith mae hyn wedi'i chael ar ddysgu'r myfyrwyr (K2, K3). Mae'n crybwyll fideos byr mae wedi'u creu ar gysyniadau allweddol yn y maes pwnc (K1), y dywed ei myfyrwyr ei bod yn ddefnyddiol eu gwyllo cyn darlithoedd i'w helpu i ddeall gwybodaeth gymhleth (K4). Fe wnaeth Mitsuki holi un o gynghorwyr anabledd y Brifysgol pan wnaeth y fideos er mwyn eu gwneud mor gynhwysol â phosibl (V1, V2, D2.V1). Mae wedyn yn trafod yr effaith mae eisoes wedi'i gweld ar ddysgu myfyrwyr o'i gwerthusiad o'r dull hwn (K5).

Mae ail esiampl yn canolbwyntio ar sesiynau arddull gweithdy Mitsuki wrth addysgu MBA, lle mae'n defnyddio senarios astudiaethau achos yn seiliedig ar ei phrofiad blaenorol yn gweithio ym maes busnes (K2) ac o ymchwil cydweithredol y mae'n rhan ohono gyda chyflogwr blaenllaw (V3, K1). Mae'n rhoi sylw i A5 a D2.VI drwy egluro sut mae'r dysgu a wnaeth o'r cyd-destunau hyn wedi dylanwadu ar ei hymarfer addysgu. Mae'n trafod yr amrywiaeth eang o fyfyrwyr yn ei grŵp gan egluro sut mae'n cynllunio gweithgareddau ac yn rheoli'r amgylchedd dysgu i sicrhau bod pawb yn gallu cyfranogi'n llawn (V1). Mae hi hefyd yn ystyried perthnasedd yr addysgu a'r astudiaethau achos i ragolygon cyflogaeth a rolau posibl y cyfranogwyr fel rheolwyr i'r dyfodol (V4).

7.3 Dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 2: Asesu a rhoi adborth i ddysgwyr

Mae Maes Gweithgaredd 3 yn gofyn ichi feddwl am sut rydych yn defnyddio asesiadau ac adborth i hybu a chynorthwyo dysgu. Nid yw Maes Gweithgaredd 3 yn gofyn am farcio crynodol ar waith myfyrwyr am gredyd academiaidd ond fe all ymwneud ag asesu ffurfiannol anffurfiol o ddysgwyr yn y lleoliad AU.

Fe allech ddefnyddio dulliau asesu ffurfiannol a/neu grynodol, ffurfiol a/neu anffurfiol. Dylai eich adborth gael ei gyflwyno wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig, neu gan ddefnyddio dulliau electronig megis podlediadau a'r cyfryngau cymdeithasol. Gan nad yw asesiadau ac adborth bob amser yn 'ffurfiol' a 'chrynodol', lle bo hynny'n berthnasol i'ch ymarfer, fe allech gynnwys gwaith gyda myfyrwyr ymchwil, cydweithwyr a chyfoedion a gweithgareddau sy'n ymwneud â dysgwyr mewn cyd-destunau cynorthwyo dysgu; fodd bynnag, rhaid iddynt fod yn berthnasol i ddarpariaeth AU.

Fel Cymrawd, bydd angen ichi ddangos eich bod yn deall y rôl bwysig y mae asesiadau ac adborth yn ei chwarae i helpu eich myfyrwyr i ddysgu a dangos eich bod yn defnyddio dulliau asesu ac adrodd yn ôl/adrodd ymlaen yn effeithiol. Dylech egluro sut rydych chi'n dewis y dull mwyaf priodol ar gyfer cyrraedd eich nodau dysgu ac yn defnyddio meini prawf i ddod i farn wybodus, ffurfiannol a/neu grynodol am waith dysgwyr, gan ddarparu adborth adeiladol, cefnogol y gellir gweithredu arno.

Yn ddibynnol ar natur eich ymarfer, fe allech ddefnyddio tystiolaeth ar gyfer Maes Gweithgaredd 3 o blith ystod eang o weithgareddau megis sesiynau addysgu, tiwtorialau un wrth un, gwaith ymarferol, arholiadau, marcio aseiniadau, cyflwyniadau, perfformiad byw, gwaith grŵp, asesiadau diagnostig mewn gweithgareddau cynorthwyo dysgu, profion ar-lein, ayb. Mae'r canllaw **Dimensions of the Framework** yn rhoi esiamplau pellach o'r mathau o weithgareddau lle gallech asesu a rhoi adborth i ddysgwyr. Mae'r arweiniad hwn hefyd yn rhoi rhai esiamplau nodweddiadol o'r ffyrdd y mae Cymrodyr yn dangos tystiolaeth o sut maent yn asesu ac yn adrodd yn ôl wrth fyfyrwyr yn eu ceisiadau.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif fathau o asesiadau ffurfiannol a/neu grynodol a ddefnyddiwyd gyda dysgwyr, boed y rheini'n ffurfiol neu'n anffurfiol;
2. Sut a pham wnaethoch chi ddewis yr arddulliau a'r dulliau penodol hyn;
3. Sut ydych chi'n sicrhau bod eich asesiad yn ddibynadwy a bod y safonau a ddefnyddiwyd yn briodol;
4. Sut ydych chi'n rhoi adborth i ddysgwyr ac yn sicrhau ei fod yn cynorthwyo ac yn gwella eu dealltwriaeth o'r pwnc, eu perfformiad a/neu eu datblygiad fel dysgwyr;
5. Sut ydych chi'n cynnwys Dimensiynau eraill y Fframwaith er enghraifft:
 - Gwybodaeth Graidd berthnasol y gwnaethoch ei defnyddio;
 - Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol sy'n llywio eich ymarfer; er enghraifft, sut ydych chi'n sicrhau bod eich arferion asesu a'ch adborth yn deg ac yn hygyrch i'ch holl fyfyrwyr.

Cynhwysir yr esiampl isod i'ch helpu i ddeall sut allai ymarfer sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 3 gael ei arddangos a'i gysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill:

Esiampl i'ch cynorthwyo i feddlu am A3: Asesu ac adrodd yn ôl wrth ddysgwyr mewn rôl Gwasanaethau Cymorth

Mae Sefa yn aelod profiadol o'r tîm cymorth dysgu sy'n gweithio mewn gwasanaethau anabledd. Mae'n dechrau drwy drafod y dulliau diagnostig mae'n eu defnyddio gyda myfyrwyr i asesu eu hanghenion cymorth dysgu ac fel mae'n gweithio gyda nhw i ddatblygu cynlluniau astudio unigol, gan ddefnyddio ei gwybodaeth broffesiynol am yr ymarfer gorau cyfredol (K1, K3, V2).

Mae wedyn yn trafod gweithio gydag un arweinydd modiwl a oedd yn bryderus ynglŷn ag a oedd eu dulliau asesu yn gynhwysol. Mae Sefa yn cyfeirio at lenyddiaeth ddethol ar gynwysoldeb ac asesu sydd wedi dylanwadu ar ei hymarfer (D2.V, V3) gan nodi rhai o'r heriau y mae'r ddisgyblaeth benodol hon yn eu peri i fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth dysgu penodol (V1, V2, K2); yn benodol o safbwynt asesu ac adborth. Mae'n cyfeirio at erthygl am ddysgu yn y ddisgyblaeth hon (K3, V3, D2.V), gan drafod sut mae hyn yn ymwneud ag asesu yn benodol, ac yn nodi'r hyn mae hi wedi'i ddysgu o'i phrofiad blaenorol o gynorthwyo myfyrwyr yn y math hwn o ddisgyblaeth (A5, V3). Eglura Sefa fel gwnaeth hi weithio gyda'r darlithydd i ddatblygu deunydd i gynorthwyo'r myfyrwyr gydag asesiadau'r modiwl drwy safle'r amgylchedd dysgu rhithiol ar gyfer modiwl (K4). Gydol yr eglurhad hwn, mae Sefa yn darparu gwybodaeth benodol am beth oedd ei rôl bersonol hi yn y cydweithrediad hwn gydag arweinydd y modiwl.

Mewn esiampl wahanol, mae Sefa yn trafod fel mae hi wedi gweithio â nifer o fyfyrwyr o'r adran Seicoleg sy'n darparu cymorth gwirfoddol i fyfyrwyr drwy wefan a sefydlwyd o fewn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae Sefa yn eu mentora tra'u bod yn gweithio gyda'r adran ac yn asesu eu gwaith ar y safle (K4), gan roi adborth ffurfiannol sy'n nodi rhai meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r myfyrwyr yn defnyddio'r profiad hwn o waith gwirfoddol fel rhan o brosiect ar gyfer un o fodiwlau'r drydedd flwyddyn; adroddiad ffurfiol sy'n myfyrio ar y profiad, gan ymgorffori adborth Sefa, yw'r asesiad crynodedol terfynol. Mae hefyd yn egluro sut mae'n llunio ei hadborth i'r myfyrwyr yn ofalus i'w galluogi i gysylltu eu profiad yn y cyd-destun hwn â'u gyrfaedd posibl i'r dyfodol (V4).

7.4 Dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 4: Datblygu amgylcheddau dysgu effeithiol a dulliau o gynorthwyo ac arwain myfyrwyr

Mae Maes Gweithgaredd 4 yn delio â pha mor effeithiol ydych chi'n defnyddio amgylcheddau dysgu ffurfiol a/neu anffurfiol i hwyluso dysgu a sut ydych chi'n bodloni anghenion eich dysgwyr am gymorth ac arweiniad addysgol. Mae Maes Gweithgaredd 4 felly'n cynnwys **dwy elfen**: yr **amgylchedd dysgu** (ffurfiol a/neu anffurfiol) a **chymorth/arweiniad i fyfyrwyr**; yr agweddau academaidd a'r agweddau bugeiliol ar eich gwaith.

Mae'n cynnwys sut rydych:

- yn defnyddio ac yn ymdrin ag amrywiol amgylcheddau dysgu ffisegol neu rithiol fel eu bod yn briodol i anghenion eich dysgwyr. Mae'r 'amgylchedd dysgu' yn cynnwys yr amgylchedd ffisegol (e.e. theatr ddarlithio, platfform ar-lein, gweithle, ayb.). Fe all hefyd gynnwys y 'diwylliant' dysgu; er enghraifft, cyd-destun, disgyblaeth, diwylliant sefydliadol, ffyrdd o ymddwyn, ffyrdd o ryngweithio, ethos, ayb. Defnyddiwch esiamplau o'ch ymarfer sy'n dangos eich cyfraniad i'r amgylchedd dysgu a oedd yn sicrhau ei fod yn effeithiol i'ch dysgwyr;
- yn gweithio gyda dysgwyr, o bosibl mewn cydweithrediad â gwasanaethau cymorth eraill, i sicrhau bod eich dysgwyr yn gallu cael a defnyddio dewis eang o gyfleoedd dysgu. Fe allai cymorth gynnwys gweithgareddau megis tiwtora personol ac academaidd, cynorthwyo anghenion dysgu ychwanegol, cyngor un i un, cwnsela, datblygu ymarfer i fodloni anghenion unigol dysgwyr a chynorthwyo cymunedau dysgu amrywiol.

Bydd yr esiamplau y gallech eu defnyddio yn bersonol i'ch ymarfer chi ac yn dibynnu ar yr amgylcheddau ffisegol a rithiol lle'r ydych yn addysgu a/neu'n cynorthwyo dysgwyr, natur y pwnc neu'r ddisgyblaeth a'r mathau o ddysgwyr. Dylai'r pwyslais fod ar eich dealltwriaeth o bwysigrwydd yr amgylchedd/au dysgu, gan gydnabod y gwahanol ffyrdd o ddysgu sy'n digwydd ynddynt; fe allai amgylcheddau gynnwys gofodau dysgu ffisegol a rithiol, dysgu seiliedig ar ymarfer, gweledol ac ysgrifenedig, ayb. Fe allai gweithgareddau dysgu gyfeirio at gymorth gwahaniaethol i sicrhau cyfle cyfartal a lefel briodol o her, cyngor un i un, cwnsela, cynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu penodol, ayb.

Mae'r canllaw **Dimensions of the Framework** yn rhoi esiamplau nodweddiadol o sut mae Cymrodyr yn dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 4.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif fathau o ofodau/amgylcheddau dysgu lle'r ydych yn ymarfer ac fel mae'r gwahanol amgylcheddau yn effeithio ar eich dysgwyr (ac arnoch chi);
2. Beth ydych chi'n ei wneud i ddatblygu amgylchedd dysgu effeithiol i'ch dysgwyr a pham;
3. Pa fathau o gymorth ac arweiniad a roddwch i'ch dysgwyr (ffurfiol a/neu anffurfiol);
4. Pam ydych chi'n dewis yr arddulliau/strategaethau penodol hyn ac i ba raddau y maent wedi gweithio yn yr esiamplau a drafodwch. Sut ydych chi'n sicrhau bod eich ymarfer yn gynhwysol;
5. Sut ydych chi'n cynnwys Dimensiynau eraill y Fframwaith, er enghraifft:
 - Gwybodaeth Graidd berthnasol y gwnaethoch ei defnyddio a pham;
 - Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol sy'n llywio eich ymarfer.

Cynhwysir yr esiampl isod i'ch helpu i ddeall sut allai ymarfer sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 4 gael ei arddangos a'i gysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill:

Esiampl i'ch helpu i feddwl am A4: darlithydd sy'n gweithio mewn disgyblaeth ieuchyd gymhwysol sy'n cynnal digwyddiad all-gwricwlaidd i fyfyrwyr

Mae Jack yn gweithio yn Ysgol y Gwyddorau Iechyd Cymhwysol ac yn defnyddio esiampl o ddigwyddiad rhyngddisgyblaethol a drefnodd fel rhan o'i dystiolaeth ar gyfer A4.

Fel darlithydd yn ei faes, ystyria Jack ei bod yn flaenoriaeth sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle ar gyfer dysgu rhyngbroffesiynol. Mae'n egluro'n fyr y math a natur y dysgu rhyngbroffesiynol yn y cyd-destun hwn ac fel mae'r llenyddiaeth yn datgan ei bwysigrwydd ar gyfer y myfyrwyr penodol hyn (K2, V4). Y tu allan i'r cwricwlwm arferol, gweithiodd Jack â dau gydweithiwr y llynedd i gynnal cynhadledd ddysgu rhyngbroffesiynol ar gyfer myfyrwyr a staff. Mynychodd ymarferwyr ieuchyd cymhwysol ac aelodau'r bwrdd cynghori cleifion lleol hefyd. Mae Jack yn disgrifio ei rôl benodol yn y tîm; yn cydlynu cyfranogaeth myfyrwyr ac yn casglu/ curadu set o adnoddau i'w defnyddio gan staff a myfyrwyr ar ôl y digwyddiad (K1 a K2).

Ar ôl y gynhadledd, lanlwythodd Jack yr adnoddau o'r digwyddiad i'r amgylchedd dysgu rhithiol ar gyfer y myfyrwyr (K4, K2). Bu'n gweithio â gwasanaeth gyrfaedd y Brifysgol i ddarparu cysylltiadau arbennig o'r adnoddau hyn i helpu'r myfyrwyr i gynllunio eu gyrfaedd (V2). Dywed mai un o ddibenion allweddol y digwyddiad oedd darparu cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu ag ymarferwyr o amrywiol feysydd ac mae'n trafod fel gwnaeth yr amgylchedd dysgu hwn gyflwyno cyfleoedd unigryw i'r cyfranogwyr (K2, K3). Eglura Jack sut wnaeth werthuso'r effaith a gafodd y digwyddiad ar ddysgu'r myfyrwyr (K5) a beth wnaeth ef yn bersonol ei ddysgu, gan gynnwys bod rhai myfyrwyr wedi'i chael yn anodd mynychu digwyddiadau nad oeddent ar yr amserlen ffurfiol; mae'n nodi beth wnaiff yn wahanol y tro nesaf. (V3, A5).

Dan ddylanwad papur diweddar ar gyflogaeth graddedigion newydd yn y maes gwyddorau ieuchyd cymhwysol, defnyddiodd Jack rhai o'r adnoddau o'r gynhadledd mewn gweithdy gyda myfyrwyr oedd yn cynllunio eu gyrfaedd i'r dyfodol (K2, V4). Fe wnaeth wahodd tiwtor gyrfaedd arbenigol (dros wyddonwyr ieuchyd) i gyfrannu ac anogodd y myfyrwyr i wneud apwyntiadau unigol gyda'r gwasanaeth gyrfaedd ar ôl y sesiwn. Ar sail adborth cadarnhaol iawn gan fyfyrwyr, mae'n awr wedi cynnwys y gweithgaredd hwn bob

blwyddyn fel rhan o'r modiwl hwn.

7.5 Dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 5: Ymgysylltiad mewn datblygu proffesiynol parhaus mewn pynciau / disgyblaethau a'u haddysgeg, gan gynnwys ymchwil, ysgolheictod a gwerthuso ymarferion proffesiynol

Mae bod yn addysgwr AU proffesiynol yn golygu sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cydestun diweddaraf y mae AU yn gweithredu ynddo, anghenion esblygol myfyrwyr, datblygiadau yn y ddisgyblaeth, ymchwil ac ysgolheictod cyfredol, datblygiadau technolegol, datblygiadau arloesol mewn addysgeg, ayb.; mae ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus yn allweddol i'r rôl. Mae Maes Gweithgaredd 5 yn ymwneud â sut rydych yn cynnal ac yn datblygu eich gallu i gyflawni eich rolau addysgu a chynorthwyo dysgu. Mae'r gweithgareddau hyn yn debygol o fod yn amrywiol iawn, gan gynnwys dulliau datblygu proffesiynol parhaus ffurfiol ac anffurfiol.

Dylech drafod eich ymgysylltiad parhaus mewn dysgu proffesiynol ffurfiol neu anffurfiol a'r ffyrdd cadarnhaol y mae'r dysgu hwn wedi effeithio ar eich ymarfer a sut gwyddoch hyn (drwy werthuso eich ymarfer).

Cyfeiriwch yma at unrhyw weithgareddau a wnaethoch i ddiweddarau eich hun ar agweddau ar addysgu a dysgu, er enghraifft gweithgareddau datblygu staff, cynadleddau ar ddysgu ac addysgu neu gyfranogi mewn prosiectau i ddatblygu dulliau dysgu. Mae'r ddogfen ganllaw **Dimensions of the Framework** yn cynnwys rhai esiamplau nodweddiadol o ddatblygu proffesiynol y mae Cymrodyr yn cyfeirio atynt yn eu ceisiadau.

Caiff gweithgareddau a wnewch fel rhan o grŵp neu dîm eu gwerthfawrogi cymaint â gweithgareddau unigol, ond bydd angen ichi egluro sut mae'r gweithgareddau hyn wedi effeithio ar eich ymarfer chi.

Dywedwch sut mae gwahanol fathau o weithgareddau proffesiynol a/neu ysgolheigaidd yn dylanwadu ar eich dulliau addysgu a chynorthwyo dysgu.

Eglurwch ym mha ffyrdd rydych chi'n casglu gwybodaeth ac yn gwerthuso eich ymarfer eich hun i sicrhau eich bod yn cyflwyno profiad dysgu o ansawdd da a bod y myfyrwyr yn dysgu o'r broses.

Ysgrifennwch am:

1. Sut ydych chi'n defnyddio ac yn ymgysylltu â'ch gweithgareddau dysgu proffesiynol parhaus i wella eich ymarfer;
2. Sut ydych chi'n cynnwys ymchwil i'r pwnc ac i addysgeg a/neu ysgolheictod yn eich ymarfer;
3. Sut ydych chi'n casglu gwybodaeth ac yn gwerthuso effeithiolrwydd eich ymarfer proffesiynol eich hun;
4. Sut ydych chi'n cynnwys Dimensiynau eraill y Fframwaith er enghraifft:
 - Gwybodaeth Graidd berthnasol a ddefnyddiwyd;
 - Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol sy'n llywio eich ymarfer.

Cynhwysir yr esiampl isod i'ch helpu i ddeall sut allai ymarfer sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 5 gael ei arddangos a'i gysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill:

Esiampl i'ch helpu i feddwl am A5: datblygiad proffesiynol i gynorthwyo myfyrwyr gradd Meistr a PhD

Mae gan Angus ystod eang o weithgareddau addysgu, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ar lefel ôl-radd yn cynorthwyo myfyrwyr gradd Meistr a PhD; eglura mai dyma brif ffocws ei Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn ddiweddar.

Mae Angus yn trafod mynychu rhaglen hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr, ac yn egluro beth wnaeth ei ddysgu ac fel mae wedi newid agweddau ar ei ymarfer o ganlyniad i'r rhaglen (D2.VI). Fel rhan o'r rhaglen hon bu'n darllen llenyddiaeth ar oruchwyllo, a dywed bod hyn wedi dylanwadu ar ei ymarfer, gan drafod esiamplau penodol o'r gwahanol ddulliau mae'n eu defnyddio'n awr i gynorthwyo dysgu myfyrwyr ar y lefel hon (K2, V3). Eglura hefyd ei fod yn awr yn cynorthwyo amrywiaeth eang o fyfyrwyr ôl-radd gyda mwy o hyder; er enghraifft, gan egluro fel mae wedi addasu elfennau o'i ymarfer goruchwyllo i gynorthwyo myfyrwyr ag anableddau dysgu yn fwy effeithiol (V1, V2).

Mae Angus hefyd yn cyfeirio at yr hyn mae wedi'i ddysgu oddi wrth ei gyfoedion/cydweithwyr am gynorthwyo myfyrwyr ar lefel ôl-radd, ac fel mae hyn wedi llywio ei ymarfer. Mae'n rhoi esiampl o arsylwi ymarfer cyd-oruchwyllo, a fu'n effeithiol iawn yn cynorthwyo myfyrwyr a oedd yn colli ffocws ar eu testun; fe wnaeth Angus wedyn lwyddo i fabwysiadu dull tebyg gyda'i fyfyrwyr ei hun (K2, K3). Mae Angus hefyd yn trafod mynychu cyflwyniad seminar gyda rhai o'i fyfyrwyr; canolbwyntiai'r seminar hon ar ganfyddiadau newydd yn ei ddisgyblaeth ac yn ddiweddarach fe wnaeth ddefnyddio hyn fel trafodaeth ddysgu estynedig gyda'i fyfyrwyr (K1).

Yn ddiweddar, mae Angus wedi datblygu modiwl newydd ar gyfer y rhaglen Meistr sy'n defnyddio dull dysgu cyfunol. Roedd y dull hwn yn newydd i Angus ar y dechrau, felly bu'n gweithio ag aelod o'r tîm e-ddysgu. Mae Angus yn trafod yr hyn a ddysgodd o weithio gyda'i gydweithiwr ac o ddarllen llenyddiaeth ar addysgu ar-lein (V3, D2.V). Mae'n cyfeirio at fel wnaeth hyn effeithio ar ei ddull o ddylunio a chyflwyno'r modiwl (K4, A1, K1). Yna mae'n ystyried pa DPP a allai ei wneud i'r dyfodol o bosibl i ddatblygu cymorth ar-lein pellach mewn meysydd eraill o'i addysgu, er enghraifft gyda'i fyfyrwyr PhD.

8. Datganiadau Cefnogi

Rhaid i'ch cais am Gymrodoriaeth gael ei ardystio gan Ddatganiadau Cefnogi gan **ddau ganolwr**. Caiff y rhain eu defnyddio i gadarnhau bod eich cais yn adlewyrchiad teg a chywir o'ch ymarfer Addysgu Uwch.

Mae'r **ddau Ddatganiad Cefnogi yn ardystio** eich hawliad ac ni fyddant yn cyfrannu at ganlyniad y broses adolygu; h.y. bydd angen i'r adolygwyr weld tystiolaeth ddigonol o ymarfer effeithiol yn eich Cyfrif o Ymarfer Proffesiynol i fodloni Disgrifydd 2 er mwyn iddynt ddyfarnu'r Gymrodoriaeth.

Dylai'r ddau ganolwr fod yn gweithio'n agos gyda chi'n awr neu dylent fod wedi gwneud hynny'n ddiweddar, a dylai fod ganddynt wybodaeth uniongyrchol am eich ymarfer fel eu bod mewn sefyllfa i wneud sylw ar eich cais a'i ardystio. Sylwer y dylai Datganiadau Cefnogi adlewyrchu perthnasoedd proffesiynol; h.y. ac ni ddylent ddod gan aelodau teulu na bod yn seiliedig ar gyfeillgarwch personol.

Bydd disgwyl i ganolwyr feddu ar brofiad cyfredol neu ddiweddar o weithio mewn Addysg Uwch a byddant fel arfer yn dal un o'r pedwar categori Cymrodoriaeth, er nad yw hyn yn hanfodol.

Mae angen i bob canolwr fod yn gyfarwydd â'r FfSP.

Mae'n bwysig ichi ddarllen y Datganiadau Cefnogi mae eich canolwyr yn eu darparu oherwydd fe allent gyfeirio at agweddau ar eich ymarfer a allai gryfhau eich cais; os felly, yna fe allech ddiwygio rhannau o'ch cais a gofyn i'ch canolwyr gadarnhau eu bod yn fodlon ardystio'r newidiadau a wnaethoch cyn ichi gyflwyno'r cais. Ar ôl ichi gael eich Datganiadau Cefnogi, arbedwch nhw fel eu bod yn barod i'w lanlwytho.

8.1 Canllawiau ar gyfer canolwyr

Rhowch i'ch canolwyr gopi o'r **Arweiniad i Ddatganiad Cefnogi ar gyfer Cymrodoriaeth a'r templed Datganiad Cefnogi**; bydd y ddwy ddogfen hon yn y **pecyn i ymgeiswyr** y byddwch yn ei lawrlwytho.

Yn eu Datganiad Cefnogi, bydd angen i'r ddau ganolwr gadarnhau eich bod wedi cyflwyno eich ymarfer yn gywir ac yn deg. Felly, mae angen i'ch canolwyr **weld y fersiwn derfynol o'ch cais** i'w galluogi i ddarparu geirda effeithiol. Yn eu Datganiad Cefnogi bydd y ddau ganolwr yn cadarnhau eich bod, yn eu barn broffesiynol nhw, yn arddangos gofynion Disgrifydd 2 ac y dylid dyfarnu Cymrodoriaeth ichi.

Gofynnir i'r canolwyr gadarnhau eu bod wedi ysgrifennu'r datganiad cefnogi eu hunain a bod y wybodaeth a ddarparant wedi'i hysgrifennu'n benodol ar gyfer eich cais chi. Gofynnir iddynt arbed eu Datganiad Cefnogi fel **ffeil pdf** a'i hanfon atoch fel gallwch lanlwytho'r rhain gyda'ch cais.

Ceidw'r Swyddfa Academaidd yr hawl i gysylltu â'ch canolwyr am eglurhad felly cofiwch sicrhau bod y ddau Ddatganiad Cefnogi yn cynnwys manylion cysylltu wedi'u dilysu (e.e. enw, teitl swydd, cyfeiriad e-bost, sefydliad). Fel rhan o broses sicrhau ansawdd barhaus y Swyddfa Academaidd, mae'r Swyddfa Academaidd fel mater o drefn yn archwilio geirdaon am ddilysrwydd drwy adolygu'r testun yn Turnitin. Yn ogystal â defnyddio meddalwedd atal llên-ladrad (Turnitin), cysylltir â rhai canolwyr i gadarnhau mai'r un yw'r Datganiad Cefnogi a gyflwynodd yr ymgeisydd â'r datganiad y maent hwy wedi'i baratoi a'i gwblhau. Os oes amheuaeth ynglŷn ag uniondeb proffesiynol y Datganiad Cefnogi, ni chaiff y datganiad ei dderbyn ac fe allai hynny arwain at i'r cais fod yn aflwyddiannus.

9. Cyflwyno eich cais am Gymrodoriaeth

Ar ôl ichi gwblhau eich cais all-lein gan ddefnyddio templed ymgeisio am Gymrodoriaeth a bod eich dau Ddatganiad Cefnogi gennych, rydych chi'n barod i gyflwyno eich cais.

Cyflwynir eich cais i'r Swyddfa Academaidd i ddechrau HEApplications@uwtsd.ac.uk.

Caiff nifer geiriau eich cais ei gyfrif. Os ydych wedi mynd dros y cyfrif geiriau, caiff eich cais ei ddychwelyd atoch ac ni chaiff ei ystyried.

Os nad ydych wedi mynd dros y cyfrif geiriau, anfonir dolen Turnitin atoch i lanlwytho eich cais a'ch datganiadau cefnogi.

9.1 Proses cyflwyno cais:

1. Pan fydd holl ddogfennau eich cais gennych a phan fo'r trefniadau talu yn barod i fwrw ymlaen, dilynwch y camau hyn i gyflwyno eich cais i'w adolygu:
 - 1.1 Cyflwynwch eich cais a'ch datganiadau cefnogi ar y Ddolen Gyflwyno briodol ar Moodle (modiwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen).

10. Sut gaiff eich cais ei adolygu?

Caiff eich cais ei adolygu gan ddau asesydd annibynnol (o'r enw 'Panel Cydnabyddiaeth AUA') fel rhan o'r broses o adolygu gan gymheiriaid. Caiff sampl o geisiadau o bob cylch cyflwyno eu cymedroli gan Asesydd Allanol.

Caiff Aseswyr eu dewis am eu profiad o adolygiadau allanol a'u dealltwriaeth o'r FfSP, yn ogystal am eu gwybodaeth a'u profiad o ddysgu ac addysgu ym maes addysg uwch. Mae cronfa aseswyr y Swyddfa Academaidd yn cynnwys arbenigwyr addysg ac ymarferwyr o amrywiol ddisgyblaethau ar draws y Brifysgol.

Mae ein haseswyr yn cyflawni cylch blynyddol o weithgareddau safoni rheolaidd a datblygu proffesiynol i sicrhau bod eu hadolygiad o'ch cais yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ddiweddaraf o ofynion yr FfSP a chymrodoriaeth.

10.1 Sut mae'r aseswyr yn ffurfio eu barn?

Bydd yr aseswyr yn chwilio am dystiolaeth bod eich ymarfer yn bodloni gofynion Disgrifydd 2 ar draws eich CMY ac yn cadarnhau bod y ddau Ddatganiad Cefnogi yn rhoi ardystiad priodol i'ch cais. Byddant yn asesu eich cais yn erbyn pob un o'r meini prawf yn Nisgrifydd 2.

Bydd pob asesydd yn darllen eich cais ac yn defnyddio meini prawf Disgrifydd 2 i ffurfio barn annibynnol gychwynnol. Mae'r ddau asesydd wedyn yn dod i farn gonsensws gyfunol. Os na fydd y ddau asesydd cyntaf yn gallu dod i benderfyniad consensws, caiff y Cynghorydd Allanol ei ddefnyddio i gymedroli a chytuno ar y canlyniad.

Caiff **nodiau canllaw** a gridiau adolygu eu darparu ar gyfer ein haseswyr, gan egluro sut disgwylir iddynt ffurfio barn broffesiynol am geisiadau am Gymrodoriaeth.

Cyn i unrhyw farn gael ei mynegi wrth yr ymgeisydd, caiff sampl o geisiadau eu cymedroli gan y Cynghorydd Allanol.

10.2 Canlyniadau posibl yr adolygiad

Dyfarnu

Os mai barn gonsensws y Panel yw bod eich cais yn bodloni gofynion Disgrifydd 2 yna dyfernir Cymrodoriaeth ichi. Byddwch yn cael neges e-bost i'ch llongyfarch gan y Swyddfa Academaidd a chewch ynddi wybodaeth am sut i lawrlwytho eich tystysgrif Cymrodoriaeth yn eich cyfrif **MyAdvanceHE**. Bydd gennych hefyd hawl i ddefnyddio FHEA ar ôl eich enw.


Atgyfeirio

Os bernir bod eich cais yn cynnwys tystiolaeth annigonol i fodloni Disgrifydd 1, yna fe gewch adborth gan yr adolygwyr mewn **templed Canlyniad ac Adborth y Panel**. Bydd yr adborth hwn yn dweud pa rai o'r saith maen prawf nad yw eich cais wedi'u bodloni ac yn egluro sut mae angen cryfhau eich cais i ddarparu'r dystiolaeth ar gyfer y meini prawf sy'n gweddill ar gyfer Disgrifydd 1.

Cewch gynnig **un** cyfle i ailgyflwyno cyn pen pedair wythnos, heb orfod talu cost ychwanegol.

Yn yr achos hwn, cewch templed ar gyfer ailgyflwyno a gofynnir ichi amlygu/tracio unrhyw newidiadau a wnewch i'ch cais gwreiddiol. Ar ôl ichi gyflwyno eich cais diwygiedig, bydd yr un adolygwyr yn gwneud penderfyniad terfynol i naill ai ddyfarnu Uwch Gymrodoriaeth neu fod angen i'r cais gael ei gyflwyno o'r newydd.

Sylwer y bydd angen i unrhyw apêl fod yn gysylltiedig â gwyro oddi ar broses PCYDDS ac nid â chanlyniad yr adolygiad.



10.3 Faint o amser fydd y broses adolygu yn ei gymryd?

Gellir cyflwyno cais am Gymrodoriaeth yn unol ag un o'r dyddiadau cyflwyno penodedig. Cewch eich hysbysu o ganlyniad eich cais cyn pen 6 wythnos o ddyddiad cyflwyno'r panel.

10.4 Beth os oes gennyf gwestiynau eraill?

Os oes gennych ragor o gwestiynau neu os ydych angen cymorth pellach, e-bostiwch HEApplications@uwtsd.ac.uk a bydd un o'n tîm yn gallu eich cynorthwyo.



Contact us

fellowship@advance-he.ac.uk

+44 (0)1904 717683 or +44 (0)1904 717664

<https://www.advance-he.ac.uk/fellowship>

   @AdvanceHE

Advance HE enables excellence in higher education, helping it shape its future. Within the UK and globally, Advance HE supports institutions in the areas of excellence in education, transformative leadership, equity and inclusion and effective governance. This is delivered through membership benefits (including accreditation of teaching, equality charters, research, knowledge and resources), programmes and events, Fellowships, awards, consultancy and enhancement services and student surveys.

©2020 Advance HE. All rights reserved.

No part of this document may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the prior written permission of the copyright owner. It is solely for use by Advance HE's accredited member institutions and direct fellowship applicants. As such, provided that due acknowledgment is given to Advance HE:

1. Advance HE's accredited member institutions are permitted to use and adapt this document solely for the use of their Advance HE accredited provision; and
2. Direct Fellowship applicants may download this document for the purpose of making and submitting an application for Fellowship to Advance HE

Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Registered as a charity in England and Wales no.1101607. Registered as a charity in Scotland no. SC043946. Advance HE words and logo should not be used without our permission. VAT registered no. GB 152 1219 50

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE:

+44 (0) 3300 416201 or publications@advance-he.ac.uk